

Dyma Sam Rowlands.




Mae Sam yn gweithio yn y Senedd - Senedd Cymru.





Fel y llywodraeth yn Llundain...

… mae’r Senedd yng Nghaerdydd yn gwneud cyfreithiau ar gyfer Cymru.



Mae Sam yn gofyn i'r Senedd wneud cyfraith newydd.



Byddai'r gyfraith newydd yn gwneud yn siŵr y gall plant yng Nghymru gael o leiaf un YMWELIAD ADDYSG AWYR AGORED DROS NOS am ddim.


Mae addysg awyr agored yn wahanol i chwaraeon fel pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd.

Mae addysg awyr agored yn antur.


Mae gan Sam rai syniadau ar gyfer y gyfraith newydd yn barod.

Mae'n meddwl...

... yr amser gorau i fynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos yw ym mlwyddyn 6




... bod hyn yn dda i blant achos mae'n helpu eu hyder nhw.



Dylai'r ymweliad fod am 4 noson.



Byddai llywodraeth Cymru'n gwneud yn siŵr bod gan bob ardal yng Nghymru'r arian i dalu am yr ymweliadau.



Byddai'r gyfraith yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu mynd, beth bynnag yw eu sefyllfa.



**Hoffai Sam wybod eich syniadau chi am addysg awyr agored.**

Anfonwch eich syniadau ynghylch:

> **Beth ddylai ddigwydd i wneud i bethau fynd yn dda iawn pan fydd plant yn mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos?**

Bydd Sam yn defnyddio eich syniadau i helpu i feddwl am beth ddylai fod yn y gyfraith newydd.